Gerallt Gymro: 1146–1223

Teithio Cymru

Ffyddlondeb / cyfeillgarwch

Yn ystod tymor y Grawys 1188 aeth Gerallt Gymro (Giraldus Cambrensis) ar daith drwy Gymru gydag Archesgob Baldwin (Archesgob Caergaint). Pwrpas y daith hon oedd codi milwyr ar gyfer y drydedd groesgad. Cychwynnodd y ddau o Henffordd ar Ddydd Mercher Lludw a thrwy ardaloedd y De, yna i'r gogledd a chyrraedd Caer erbyn y Pasg. Yn y llythyr dychmygol hwn, mae Gerallt yn hel meddyliau am ei daith ac yn diolch i'r Archesgob Baldwin am ei gwmnïaeth.

Y Sulgwyn, 1188

F'annwyl Dad yn Nuw, yr Archesgob Baldwin,

Dim ond gair i ddiolch am eich cwmnïaeth ar daith fythgofiadwy o gwmpas Cymru. Gan obeithio eich bod wedi cael bendith o ymweld â'r gwahanol fannau ac o gyfarfod â'r bobl. Dim ond gobeithio nad oedd ein taith yn ofer. Fel y clywsoch, fe addawodd sawl un ymuno yn y croesgadau. Roeddech chi'n sôn droeon eich bod â'ch bryd ar fynd i Jerusalem. Tybed ydych chi wedi dod i benderfyniad erbyn hyn?

Rwy'n dal i feddwl amdanoch chi yn gwrthod credu fy stori pan fuon ni yn Aberhonddu. Ydi, mae hi'n hollol wir. Rydw i wedi siarad efo'r bachgen ddringodd i fyny mur Eglwys Llanfaes i chwilio am gywion yn nyth y golomen. Do, mi fuodd yno am dri diwrnod gan fod ei fysedd wedi glynu ar fur yr eglwys. Ac i brofi fod hyn wedi digwydd, mae olion ei fysedd i'w gweld yn glir ar garreg y mur.

Roeddwn yn falch eich bod yn cytuno â mi ar un peth pwysig – does unman yng Nghymru yn debyg i Faenorbŷr yn Sir Benfro. Man fy ngeni! Dyma yn sicr y lle harddaf yng Nghymru gyfan. Do, mi roeddech chi yn cytuno efo mi pan welsoch chi'r olygfa fendigedig.

Ydych chi'n cofio galw yng Nghaernarfon – y lle hwnnw efo'r castell bychan hwnnw ar ben y bryn? Roeddech chi wedi blino'n lân erbyn hynny. A dweud y gwir, roeddech chi'n amau oedd y daith o werth o gwbl. Ond wrth gwrs wedi blino oeddech chi. A braidd yn flin! Mi syrthioch chi i gysgu yn ymyl y goedwig honno a phan wnaethoch chi ddeffro dyna lle'r oedd yr aderyn hwnnw yn canu nerth esgyrn ei ben. 'Yr eos' meddech chithau a finnau yn dweud nad oedd yr eos byth yn dod i Gymru. Ydych chi'n cofio'r ateb roesoch i mi? "Wel dyna aderyn call." Mi wnaeth eich ateb godi dipyn ar galonnau'r ddau ohonom ni. Mi fuon ni'n chwerthin gryn dipyn ar ôl hynny.

Dydw i ddim yn gwybod a ddylwn i sôn am Afon Menai? Mi gawson ni gyfnod digon anodd yn fan'na. Chi yn pregethu'n huawdl, fel arfer, a'r bechgyn ifanc yna yn eich gwatwar. Ond er gwaetha'r gwatwar fe gawson ni lawer iawn o fechgyn ifanc oedd yn barod i ymuno â'r Groesgad.

Hawdd iawn fyddai i mi fynd ymlaen i sôn am ragoriaethau'r daith ond mae'n well i mi derfynu hyn o lith. Mae gen i ychydig mwy o wybodaeth i chi. Rwyf wedi cael cynnig bod yn esgob yn Llandâf ac mae'n bur debyg y caf gynnig Bangor hefyd. Ond, fel y gwyddoch, dim ond un esgobaeth sy'n mynd â'm bryd a honno ydi Tŷ-Ddewi. Yn y cyfamser rwyf am fynd ati i sgrifennu am y daith. Rwyf wedi meddwl am benawdau i'r llyfrau'n barod, "Itinerarium Kambriae" (Taith drwy Gymru) a "Descriptio Kambriae" (Disgrifiad o Gymru).

Ysgrifennwch ataf pan gewch gyfle,

Yn rhwymau'r Efengyl,
Giraldus

"Y mae haearn yn hogi haearn, ac y mae dyn yn hogi meddwl ei gyfaill."

Diarhebion 27:17

O Dduw,
mi rydw i yn edmygu Gerallt Gymro
am deithio o gwmpas Cymru yn rhoi darlun i ni o Gymru'r cyfnod hwnnw.
Ond tybed oedd ei nod yn cyd-fynd â'th ffordd Di o fyw?
Helpa fi i chwilio am ateb i'r cwestiwn hwn.
Amen.

Ydych chi'n cofio beth oedd pwrpas taith Gerallt a'r Archesgob?
Recriwtio milwyr i fyddin y groesgad. Ydych chi'n credu y dylai pobl grefyddol wneud hyn?